

# Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022



## CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL CDLI3: Diogelwch Blaenau Siopau

Mabwysiadwyd Chwefror 2014

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: [www.conwy.gov.uk/cdll](http://www.conwy.gov.uk/cdll), Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Adeilad Muriau Rosehill Street, Conwy LL32 8LD neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fydech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445 / 575124 / 574232.

**Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575461.**

# CYNNWYS

## Tudalen

1. CYFLWYNIAD .....	4
2. POLISI CYNLLUNIO CFS/8 – DIOGELWCH BLAEN STRYD SIOPA.....	4
3. YR AGWEDD TUAG AT DDIOGELWCH SIOPAU .....	5
4. GWYDR.....	5
5. RHWYLLAU A CHAEADAU .....	6
Rhwyllau latis a ‘Brick-Bond’ mewnol.....	7
Rhwyllau Allanol Latis, ‘Brick-Bond’ a dolenni cadwyn Agored .....	7
Caeadau Allanol.....	8
Caeadau Rholio Cadarn.....	8
Caeadau tyllog .....	9
Bocsys Caeadau .....	9
6. DRYSAU.....	9
7. BOCSYS LARYMAU ALLANOL, SYNWYRYDDION A TCC .....	9
8. A OES ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO ARNOCH?.....	10
9. CYMORTH A CHYNGOR.....	10
10. RHWYLLAU A CHAEADAU – CANLLAW CRYNO .....	11

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae blaen siopau'n hanfodol wrth sefydlu cymeriad ac ymddangosiad strydoedd siopa. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhoi cryn bwyslais ar ba mor addas yw dyluniad blaen siopau, nid yn unig i ddiogelu cymeriad yr adeiladau, ond hefyd i gynnal strydoedd sy'n ddeniadol ar y cyfan a chynnal ei Chynladwyedd masnachol. Gall datblygiadau amhriodol gael effaith niweidiol Ddifrifol nid yn unig ar yr adeilad, ond hefyd ar y strydwedd, a photensial masnachu'r stryd.

1.2 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r angen am ddiogelwch blaen siop wedi dod yn gynyddol bwysig. I ddelio a'r bygythiad cynyddol o ddwyn a fandaliaeth, mae nifer o fesurau wedi eu cyflwyno i flaen siopau presennol a rhai newydd. Yn anffodus, mae'r defnydd o rai mesurau diogelwch, yn benodol, caeadau rholio cadarn, yn cael effaith niweidiol ddiffrifol ar ymddangosiad adeiladau a chymeriad rhai strydoedd yn nhrefi a phentrefi Conwy.



1.3 Gan fod blaen stryd deniadol yn dod a manteision o ran masnach a'r economi leol, mae'n hanfodol fod perchnogion eiddo'n defnyddio mesurau diogelwch priodol sy'n cael cyn lleied o effaith â phosibl ar y strydwedd. Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r mathau o ddiogelwch blaen siop fydd yn dderbyniol i'r Cyngor a'r rhai na fydd yn dderbyniol.

## 2. POLISI CYNLLUNIO CFS/8 – DIOGELWCH BLAEN STRYD SIOPA

2.1 Bydd ceisiadau Cynllunio a cheisiadau Adeilad Rhestredig sy'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn cael eu penderfynu yn unol â pholisi canlynol y CDLI:

**“Ni roddir caniatâd cynllunio neu Ganiatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer gosod caeadau solet neu gaeadau rholeri tylllog ar du blaen siop, neu ar eiddo arall mewn ffryntiadau stryd siopa. Fel arfer, bydd y Cyngor ond yn rhoi caniatâd cynllunio neu Ganiatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer rhwyllau rholeri allanol a rhwyllau y gellir eu tynnu ar du blaen siop ac eiddo masnachol lle mae'r**

rhwyllau wedi'u hintegreiddio yn nyluniad y tu blaen siop, yn cael effaith weledol fach iawn ac yn gydnaws â gweddill trychiad yr adeilad a golygfa stryd.”

### 3. YR AGWEDD TUAG AT DDIOGELWCH SIOPAU

3.1 Gall mesurau diogelwch gymryd sawl ffurf, ac nid yw pob un ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â blaen siop. Bydd yr ateb cywir yn dibynnu ar bwrpas y mesur diogelu, byrgleriaeth, fandaliaeth neu'r ddau. Gall systemau diogelu eiddo da gynnwys amrywiaeth llawn o fesurau posibl gan gynnwys:

- atgyfnerthu cloeon drysau a ffenestri;
- atal mynediad drwy'r to, drwy'r ochr a thrwy'r cefn;
- larymau;
- teledu cylch caeedig;
- goleuadau diogelwch a goleuadau mewnol / allanol yn gyffredinol;
- diogelwch blaen siop yn benodol.

3.2 Rhai mathau eraill o ddiogelu yw gosod dodrefn stryd, fel bolardiau, pileri a rheiliau i atal "hyrddio". Mae'n bosibl y bydd angen y caniatâd ar gyfer hyn a gall swyddogion y Cyngor roi cyngor i chi ar hyn.

### 4. GWYDR

4.1 Mae tri math o wydr ar gael, ond dim ond dau ohonynt sy'n cynnig diogelwch a sicrwydd: gwydr wedi lamineiddio a'i atgyfnerthu.

**Gwydr fflôt** yw'r un mwyaf sylfaenol a'r rhataf ond nid yw'n cynnig fawr o ddiogelwch, yn dibynnu ar ei drwch.

**Gwydr wedi'i lamineiddio**, a gynhyrchir drwy gyfuno dwy haen neu fwy o wydr fflôt, gydag un haen neu fwy o bolyfinyl bwtryal (PVB), a dyma'r gwydr mwyaf derbyniol yn weledol ac nid yw'n hawdd ei dorri.

Mae **gwydr wedi'i atgyfnerthu** wedi'i drin gan wres a gall fod hyd at 5 gwaith cryfach na gwydr arferol – ond nid yw'n bosibl ei dorri na'i ddrilio ar y safle. Dyma'r math mwyaf effeithiol a chostus o wydr ar gyfer diogelu ffenestri blaen siopau.

- 4.2 Defnyddio gwydr wedi'i lamineiddio neu ei gryfhau yw'r ateb cyntaf i'w ystyried, yn enwedig ar flaen siopau hanesyddol, sy'n dal i gynnwys y gwydr gwreiddiol, a allai dorri'n gymharol hawdd, heb fawr o ergyd. Nid oes angen gosodiadau ychwanegol ac nid oes angen caniatâd cynllunio i osod gwydr wedi'i atgyfnerthu.
- 4.3 Mae **ffilm atal chwalu'n** gadarn, tryloyw, ac yn gymharol hawdd i'w osod ar wydr presennol ac yn rhatach na gosod ffenestri newydd gyda gwydr wedi'i lamineiddio neu ei atgyfnerthu. Ei brif fantais yw dal darnau o wydr gyda'i gilydd pan mae ffenestr wedi ei thorri. Mae hefyd yn ei wneud yn gryfach, a gallai helpu rhwystro ymosodiadau torri a dwyn. Fodd bynnag, nid yw ffilm atal chwalu mor effeithiol â gwydr wedi'i lamineiddio.
- 4.4 Mae'n bosibl y bydd blaen siopau gyda nwyddau risg uchel, er enghraifft, gemwaith ac eitemau trydanol, angen gwydr wedi'i lamineiddio o drwch mwy neu wydr lamineiddio wedi'i atgyfnerthu. Mantais arall gwydr o'r fath yw ei fod yn amsugno golau uwch fioled, all niweidio nwyddau sy'n cael eu harddangos.
- 4.5 **Maint ffenestri** - Mae gan flaenau siopau traddodiadol baenau llai o wydr ac yn gallu bod yn anoddach i'w torri na darnau mawr o wydr modern. Gall cyflwyno neu ailosod bariau gwydr, polion ffenestr a pholion stondin gynyddu cryfder ffenestr neu ddrws siop ac, os ydynt yn cael eu defnyddio gyda gwydr wedi'i atgyfnerthu gall ddarparu diogelwch digonol ar gyfer blaenau'r rhan fwyaf o siopau. Mae darnau bach o wydr hefyd yn rhatach i'w ailosod. Os yw'n briodol, gellir cryfhau polion ffenestr drwy ychwanegu adrannau T metel. Mae'n werth cysylltu â'r Cyngor cyn gwneud gwaith o'r fath, gan y gallai fod angen caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig.

## 5. **RHWYLLAU A CHAEADAU**

- 5.1 Dylid ystyried diogelwch wrth ddylunio blaen siop neu ei adnewyddu er mwyn i fesurau diogelwch gyd-fynd yn llwyddiannus gyda'r dyluniad. Wrth ystyried unrhyw ateb o'r fath, yn enwedig rhwyllau a chaeadau, mae'n bwysig i ystyried eu heffaith ar ymddangosiad blaen y siop, yr adeilad cyfan, a'r strydwedd cyffredinol. Dylai'r mesur diogelwch a ddewisir, gael cyn lleied o effaith niweidiol â phosibl gan gyflawni'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch. Mae rhwyllau mewnol ac allanol, yn caniatáu pobl i weld tu mewn i'r siop a chadw gwylidwraeth oddefol ar yr eiddo o'r

stryd. Gall gadael goleuadau ymlaen yn y siop fod yn rhwystr diogelwch pellach. Os oes angen caeadau yna, os yw hynny'n bosibl, dylent fod yn rhai mewnol yn hytrach nag allanol.

### **Rhwyllau latis a 'Brick-Bond' mewnol**

- 5.2 Os oes angen rhwystr corfforol o fewn blaen siop, y dewis mwyaf priodol yw rhwyllau latis neu 'brick-bond'. Ychydig o effaith mae rhwyllau mewnol yn eu cael ar ymddangosiad blaen y siop ac fel arfer nid oes angen Caniatâd Cynllunio. Mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer gosod rhwyllau neu gaeadau mewnol, ac ni fyddant yn dderbyniol os yw'r addasiadau'n cael effaith niweidiol ar gymeriad yr adeilad.



- 5.3 Bydd maint y ffenestr yn dylanwadu ar faint a lleoliad y rhwyllau. Bydd modd eu symud yn ystod oriau agor i focsys, sydd fel arfer y tu ôl i fondo'r ffenestr.
- 5.4 Y dull mae'r Cyngor yn ei ffafrio yw darparu'r diogelwch sydd ei angen drwy ddefnyddio rhwyllau mewnol. Gall rhwyllau mewnol ganiatáu pobl i weld tu mewn i'r siop o'r tu allan ac ni fydd angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig.

### **Rhwyllau Allanol Latis, 'Brick-Bond' a dolenni cadwyn Agored**

- 5.5 Mae'r rhwyllau hyn yn rhoi rheolaeth weledol dros flaen siop tu ôl y caeadau / rhwyllau. Er bod angen caniatâd cynllunio i osod rhwyllau latis neu 'brick bond' allanol, mewn egwyddor, maent yn debygol o gydymffurfio â pholisi'r Cyngor. Gallant helpu ddiogelu ffenestri crwm ar flaen siopau traddodiadol. Fodd bynnag, bydd angen bod yn ofalus i sicrhau bod eu manylion yn dderbyniol, yn benodol trwch y rhwyllau. Byddai'n ddefnyddiol cyfuno golau lefel isel priodol gyda'r dull hwn.





### Caeadau Allanol

- 5.6 Gall caeadau rholio allanol gael effaith sylweddol ar ymddangosiad yr adeilad a'r strydwedd gan ddibynnu ar :
- y math – mae effaith caeadau cadarn yn llawer mwy na rhwyllau, a gallant ddenu graffiti.
  - y lliw a'r deunydd - dur galfanedig a lliwiau llachar sy'n cael yr effaith mwyaf niweidiol.
  - Y gofod ar gyfer cadw'r rhwyllau mewn bocs ar flaen y siop.
  - Y canllawiau metel bob ochr i flaen y siop sy'n cynnal y caeadau rholio i gynnig diogelwch.

### Caeadau Rholio Cadarn

- 5.7 Ar ôl eu cau, mae caeadau cadarn yn niweidio ymddangosiad gweledol adeiladau unigol. Mae caeadau rholio cadarn, y fersiwn rhataf fel arfer yw dur galfanedig, yn gwneud blaen y siop yn hollol blaen a dinodwedd, yn creu 'wyneb gwag' ar y strydwedd ac yn gwneud i'r ardal edrych fel caer fygythiol. Mae'r defnyddio caeadau allanol cadarn hefyd yn agored i bosteri anghyfreithlon a graffiti, sy'n gwneud y ganolfan siopa hyd yn oed yn llai deniadol. Mae gosod caeadau rholio cadarn yn groes i bolisi cynllunio'r cyngor, ac felly bydd caniatâd fel arfer yn cael ei wrthod.





## Caeadau tyllog

- 5.8 Caeadau gyda thyllau ynddynt sy'n gadael i chi weld rhywfaint o'r siop drwy'r caead. Mae maint y tyllau'n amrywio, rhwng 2mm a 8mm fel arfer i roi rheolaeth weledol drwy'r caead mewn mannau strategol.



## Bocsys Caeadau

- 5.9 Mae bocsys caeadau yn cael effaith niweidiol ar agwedd weledol ac ansawdd dyluniad blaen siop ac yn niweidio cymeriad ac ymddangosiad y strydwedd. Maent yn ymestyn ymlaen oddi wrth blaen y siop ac yn edrych fel ychwanegiad i wyneb blaen y siop. Dylid cuddio blychau i'w dal a sianeli cyfeirio yng nghynllun blaen y siop os yw hynny'n ymarferol.
- 5.10 Mae gosod caeadau rhoio cadarn a thyllog yn groes i bolisi cynllunio'r Cyngor ac o ganlyniad, bydd caniatâd yn cael ei wrthod.

## 6. DRYSAU

- 6.1 Drysau siopau, yn enwedig os ydynt yn wydr ac ychydig yn ôl o flaen y siop, ac yn aml dyma bwynt mynediad byrgleriaid. I atal hyn, rydym fel arfer yn ffafrio gosod rhwyllau latis, ond gellir eu diogelu gyda giataiau haearn sy'n bosibl eu symud. Dylid storio giataiau mewn man cudd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.



- 6.2 Gall defnyddio golau hefyd weithredu fel rhwystr ar ddrysau ychydig yn ôl o flaen y siop.

## 7. BOCSYS LARYMAU ALLANOL, SYNWRYDDION A TCC

- 7.1 Nid oes angen caniatâd cynllunio i osod bocsys larwm maint safonol. Bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig os yw'r adeilad yn un Rhestredig.
- 7.2 Gellir cysylltu synwryddion ffenestr i larwm neu gamera TCC ac mae'n annhebygol y bydd angen Caniatâd Cynllunio na Chaniatâd Adeilad Rhestredig os

yw'r adeilad yn un Rhestredig. Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio i osod camerâu TCC a bydd bob amser angen Caniatâd Adeilad Rhestredig.

## **8. A OES ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO ARNOCH?**

8.1 Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw newid i eiddo masnachol sy'n cael effaith sylweddol ar ei ymddangosiad allanol, gan gynnwys gosod caeadau neu rwyllau diogelwch allanol parhaol. Fel arfer nid oes angen caniatâd i osod rhwyllau a chaeadau mewnol, ffilmiau a gwydr wedi ei atgyfnerthu. Mae'n bosibl y bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig hefyd i'w gosod ar Adeiladau Rhestredig o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

## **9. CYMORTH A CHYNGOR**

9.1 Os ydych yn ystyried ychwanegu mesurau diogelwch i'ch siop a allai fod angen caniatâd rydym yn eich annog yn gryf i drafod eich bwriad gyda Swyddog Cynllunio cyn archebu gan gyflenwr. Y rhif cyswllt yw 01492 575247.

9.2 Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn rhoi cyngor i chi hefyd. Eu rhif cyswllt yw 0300 330 0101.

## 10. RHWYLLAU A CHAEADAU – CANLLAW CRYNO

Darperir canllaw cryno ar Rwyllau a Chaeadau isod er hwylustod. Sylwch mai fel canllaw yn unig yw hwn a dylid ei ddarllen ar y cyd â gweddill y CCA hwn. Bydd angen ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun yn unol â Pholisi CFS/8 y CDLI. I gael cyngor ar yr angen am ganiatâd cynllunio ar gyfer achosion penodol, cysylltwch â'r Adran Rheoli Datblygu ar 01492 575247.

Math	Derbyniol mewn egwyddor?	Angen caniatâd cynllunio?
<p><b>Delltiau Mewnol / Rhwyllau Bric Bond</b></p> 	Byddai	Ddim fel arfer, er bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer Adeiladau Rhestredig.
<p><b>Delltiau allanol, bric bond a rhwyllau dolenni cadwyn agored a gatau dur symudol</b></p> 	Byddai	Oes
<p><b>Caeadau Tyllog Allanol</b></p> 	Na fyddai	Oes
<p><b>Caeadau Rholio Cadarn</b></p> 	Na fyddai	Oes